| Ymyrraeth | Cynnig Casnewydd | | | Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Oren | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| Arwain | Y Cynghorydd Jane Mudd a Steve Ward | Cyfnod Adrodd | Chwarter 1 2022-23 | Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Cwr Gwybodaeth Casnewydd: Datblygwyd ymgynghoriad cyn cynllunio ar gyfer campws newydd canol dinas i Goleg Gwent (lansio'r ymgynghoriad ddechrau Gorffennaf); Sefydlwyd Startup Stiwdio, canolfan ddeor newydd, a sefydlwyd ar gampws Casnewydd i raddedigion PDC sy'n dechrau eu busnesau eu hunain; Datblygu yn mynd rhagddo ar Ganolfan Ymchwil a Datblygu Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI) ar gampws PDC Casnewydd gan greu Pentref Iechyd Digidol ar-lein i gynnig amgylchedd hyfforddi efelychedig i nyrsio a gofal iechyd cysylltiedig, ynghyd â datblygu deunydd addysgu ar-lein Iechyd a Gofal Digidol; Datblygu cais ariannol Codi'r Gwastad ar gyfer Sefydliad Technoleg Cenedlaethol newydd yng nghanol y ddinas.

Mae'r Is-grŵp Newid yn yr Hinsawdd wedi datblygu cynllun gweithredu gyda dau faes gwaith: yr hyn mae'r gymuned am i ni ei wneud; a sut allwn ni gydweithio fel sefydliadau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yng Nghasnewydd?
Mae holiadur cyhoeddus cychwynnol wedi digwydd ac mae holiaduron i'r dyfodol wedi'u cynllunio ar gyfer gwahanol sectorau.

Digwyddiadau – A gyflawnwyd: Digwyddiadau Jiwbilî Platinwm; Ras Faton y Frenhines; Penwythnos Celf a Diwylliant Splash Mawr; Gŵyl Reggae and Riddim; Rhaglen gerddoriaeth fyw canol y ddinas; Y Siop Siarad (gofod cyhoeddus sy'n archwilio'r croestoriad rhwng cyfranogiad diwylliannol a democrataidd); Theithiau Cerdded Mewn Welis (mewn parciau a mannau gwyrdd).
Datblygu rhaglen arfaethedig o ddigwyddiadau yn y ddinas gan gynnwys: StoryTrails; Pride in the Port; Chwaraeon yn y Parc; Arddangosfa Cymru a Brwydr Prydain; Gŵyl Fwyd Casnewydd; Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog Cymru Mehefin 2023.

Cytuno yr yswiriant ar gyfer costau uwch trawsnewid y Bont Gludo

Canol y Ddinas – arian Trawsnewid Trefi yn cael ei ddefnyddio i gynnig cyfle i fusnesau lleol gael siop fanwerthu dros dro; Cyllid Strydoedd Saffach yn cael ei ddefnyddio i ddarparu Cenhadon Stryd Gyda'r Nos ar nosweithiau Gwener a nos Sadwrn.

Celf stryd newydd a grëwyd yn y ddinas gan gynnwys yn ardaloedd Shaftesbury a Philgwenlli.

Arolwg canfyddiad y cyhoedd drwy Banel Dinasyddion a wi-fi bysiau Trafnidiaeth Casnewydd.

| Mesuriadau Perfformiad Allweddol | Blaenorol Blwyddyn | Gwirion -eddol | COG |
|---|---|---|---|
| % yn dweud bod Casnewydd yn lle da i fyw | 52.3% | 57.1% | |
| % yn dweud bod Casnewydd yn dod yn lle gwell i fyw | 50.0% | 53.0% | |
| % sy'n falch o ddod o Gasnewydd | 46.6% | 47.4% | |
| Nifer yr ymwelwyr | > 2M | | |
| Gwerth twristiaeth | >£149M | | |
| % y bobl mewn gwaith | >75% (Mawrth 2021) | | |

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

Datblygu Cynllun Creu Lleoedd yng Nghanol y Ddinas/Prif Gynllun wedi'i adnewyddu gan ddefnyddio egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Datblygu strategaeth ddiwylliannol ar gyfer y ddinas.

Datblygu cais i Gasnewydd gynnal Porthladd Rhydd Cymru.

Datblygu clwstwr seiber drwy bartneriaeth Porth y Gorllewin.

Gwaddol Gwastadeddau Byw i'w ddatblygu, gan wneud cais am CNC a chyllid arall i ddatblygu'r gyrchfan mewn modd cynaliadwy.

Cartrefi fforddiadwy newydd ar y gweill: Cartrefi Dinas Casnewydd yn darparu uwchgynllun Ringland (160 o gartrefi ac unedau masnachol); fflatiau deiliadaeth gymysg yn Coverack Road ac Olympia House. Mae POBL a'r datblygwr tai Lovell yn gweithio mewn partneriaeth i greu 500 o gartrefi newydd yng Ngerddi Locke, Glan Llyn.

Cyflwyno rhaglen ddigwyddiadau a cheisio cyflwyno mwy o ddigwyddiadau chwaraeon rhanbarthol a rhyngwladol.